



**YSGOL
LLANFYLLIN**

Mai 24ain 2024

Re: cynnig i newid hyd y diwrnod ysgol

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi am rai newidiadau arfaethedig i strwythur y diwrnod ysgol yma yn Ysgol Llanfyllin :

- **Newid amser gorffen y diwrnod ysgol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Uwchradd o 3:25pm i 3:10pm**

Pe bai'r newid hwn yn cael ei gymeradwyo, bydd yn dod i rym o 1af Medi 2024.

Credwn y bydd y newid hwn o fudd i gymuned yr ysgol ac yn effeithio'n gadarnhaol ar addysg eich plentyn. Bydd y buddion hyn yn cynnwys:

- Amserlen gyson ar draws pob cyfnod o'r ysgol gydag amserau gwersi cyffredin, amseroedd egwyl a diwedd diwrnod ysgol. Bydd hyn yn caniatáu mwy o brofiadau dysgu traws-gyfnod i ddisgyblion a bydd yn gwella cyfleoedd cynllunio ar gyfer staff addysgu.
- Egwyl ginio ychydig yn fyrrach a fydd yn lleihau amhariad ar ddysgu yn ystod rhan ganol y diwrnod ysgol. Nododd ein hadroddiad Estyn diweddar rai problemau gyda disgyblion yn ymddieithrio o'u dysgu. Trwy arsylwi, rydym wedi gweld patrwm o ddigwyddiadau yn ymwneud ag ymddygiad aflonyddgar yn ystod 10/15 munud olaf ein hamser cinio. Mae'r digwyddiadau hyn yn digwydd yn bennaf ymhlith ein dysgwyr uwchradd ac yn cael effaith andwyol ar ddysgu unrhyw ddisgyblion yr effeithir arnynt yn ystod sesiwn y prynhawn.

Mae'r wybodaeth yn y llythyr hwn hefyd wedi'i anfon at:

- Aelodau cyngor myfyrwyr Ysgol Llanfyllin
- Holl staff Ysgol Llanfyllin
- Awdurdod Addysg Lleol Powys
- Aelodau corff llywodraethu Ysgol Llanfyllin
- Pob darparwr cludiant ysgol

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd fel bod cyn lleied â phosibl o darfu.

Rwy'n gwerthfawrogi y gallai'r newid hwn effeithio arnoch chi o ran gofal plant neu drefniadau gweithio, ac efallai y bydd gennych gwestiynau yn ymwneud ag addysg eich plentyn. Am y rheswm

hwn, hoffwn eich gwahodd i rannu unrhyw adborth sydd gennych drwy ei anfon i office@llanfyllin.powys.sch.uk erbyn dydd Mawrth Mehefin yr 11eg.

Yn ogystal, byddwn yn cynnal cyfarfod ymgynghori ar-lein a sesiwn holi ac ateb i ymateb i unrhyw gwestiynau a allai fod gennych ddydd Llun y 10fed o Fehefin am 6yh. Byddaf yn dosbarthu'r ddolen ar gyfer y cyfarfod hwn erbyn dydd Gwener Mehefin 7fed trwy ap yr ysgol a Class Charts.

Byddwn yn rhyddhau canlyniadau'r ymgynghoriad erbyn dydd Gwener Mehefin 14eg 2024 drwy ap yr ysgol a Classcharts.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'Dewi Owen', with a small dot at the end.

Dewi Owen

Pennaeth Ysgol Llanfyllin Headteacher

Cc: Personnel file